Sganiwch i roi adborth

**Yn haf 2022, cyflwynodd Castell-nedd Port Talbot gais uchelgeisiol i'r Gronfa Lefelu Llywodraeth y DU (LUF) ar gyfer gwaith adfer a gwella ar sail treftadaeth ym Mharc y Gnoll. Gan i'r cais hwn fod yn llwyddiannus, mae'r cyflwyniad hwn yn amlinellu prif agweddau'r cynllun, sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gyda golwg ar baratoi'r ceisiadau statudol angenrheidiol. O ganlyniad, rydyn ni'n casglu adborth gan y gymuned a phartïon eraill â diddordeb ynghylch cynigion yr LUF.**

**Sylwch mai cysyniadau yw'r cynlluniau ar hyn o bryd, ac y gallant newid.**

*Gallwch roi adborth hefyd trwy fynd i: http://www.gnollestatecountrypark.co.uk/investment*

## Hanes

Adeiladwyd Tŷ'r Gnoll gan Syr Herbert Mackworth yn 1776-8, ac fe'i dyluniwyd gan y pensaer John Johnson o Gaerlŷr. Mae'n adlewyrchu arwyddocâd hanesyddol Castell-nedd fel canolfan oedd yn datblygu ar ddechrau diwydiant gweithgynhyrchu copr y byd, ac mae'n enghraifft o 'ystâd wledig' a adeiladwyd gan y cyfoethogion newydd mewn ymgais i ddangos y statws roeddent newydd ei gael. Er bod y tŷ wedi'i ddymchwel, mae'r parc a'r gerddi o'i amgylch wedi tyfu i fod â gwerth sylweddol i bobl Castell-nedd o safbwynt hamdden a rhyngweithio. Mae'r ymwelwyr yn ei werthfawrogi'n fawr hefyd fel canolfan weithredol yng Nghastell-nedd, ac fel lle sydd ag arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol.

## Gweledigaeth

Nod y prosiect yw cyflawni'r nodau canlynol:

- **Cefnogi llesiant trwy fynediad at dreftadaeth, natur a gweithgareddau awyr agored, a chyfranogi ynddynt**
- **Ychwanegu at yr amgylchedd naturiol**
- **Datblygu safon a gwerth yr economi ymwelwyr**
- **Cynyddu 'balchder lle' yng nghyd-destun cynnig ehangach Bro Nedd.**

*'Mae treftadaeth yn rhan annatod o'n diwylliant, ymdeimlad pobl o hunaniaeth a'u hymdeimlad o berthyn, ac mae hynny yn ei dro yn effeithio ar iechyd, llesiant a chynhwysiad cymdeithasol pobl. Mae treftadaeth a diwylliant hefyd yn cyfrannu at yr economi, gan gefnogi cyflogaeth am dâl, helpu i ddenu mewnfuddsoddi, a chynhyrchu gwerth trwy weithredu gwirfoddol – rhan o'n hagenda 'ffurfio lleoedd' ehangach.'*

## Strategaeth Gyffredinol y Parc




***Strategaeth Gyffredinol y Parc***

## Elfennau Allweddol

**Gwella'r cynnig i ymwelwyr, trwy gynnwys atyniadau i deuluoedd a chynnig gwell o ran arlwyo fel a ganlyn:**

- Cyfnerthu ac adfer nodweddion treftadaeth allweddol, gan gynnwys y sgydau, agor y seleri yn Nhŷ'r Gnoll, ac ailgyflwyno fistas hanesyddol pwysig, ochr yn ochr â darparu dehongli ehangach yn y parc.
- Ailddatblygu'r Ganolfan Ymwelwyr i gynnwys cyfleusterau gwell ac ychwanegol.
- Datblygu'r hyn a gynigir o ran chwarae a gweithgareddau, gan gynnwys ardal chwarae antur naturiol.
- Cyflwyno tŷ cychod newydd, gyda chiosg a theras ar lan y llyn i wasanaethu'r cyfleuster chwarae ac annog ymwelwyr i archwilio'r safle ehangach a'r llwybrau cerdded cylchol sydd ar gael.
- Gwella'r rhwydwaith o lwybrau a thrywyddau a chysylltiadau â thir Coed Cadw.
- Estyn y ddarpariaeth parcio ceir a rhesymoli dilyniant cyrraedd y parc.
- Cyflawni gwelliannau bioamrywiaeth.
- Cyflwyno llety i dwristiaid, fel bod modd aros dros nos, a fydd yn cynyddu gwariant ymwelwyr gydag effaith gadarnhaol ar yr economi leol.




*[B3] Delwedd gysyniadol yn dangos Chwarae Coetir – elfennau cerflun sy'n cynnig chwarae anffurfiol sy'n cysylltu â themâu deongliadol y rhan hon o'r safle.*

# A4

- **Adfer adfeilion Tŷ'r Gnoll yn fan canolog yn y parcdir ehangach.**
- Bydd ailgyfeirio ffocws fel hyn yn sicrhau dealltwriaeth ehangach o'r rheswm dros fodolaeth Castell-nedd a'r parcdir ac yn ailsefydlu'r cysylltiad rhwng y tŷ a'r ystâd, a gollwyd wedi i'r adeilad gael ei ddymchwel yn y 1950au.
- **Cyfeirio at hanes diwylliannol cyfoethog Castell-nedd Port Talbot.**
- Adeiladu ar gysylltiadau rhwng CNPT a sêr y byd adloniant, gan gynnwys Richard Burton, Anthony Hopkins, Michael Sheen, Bonnie Tyler, Rob Brydon, Max Boyce, a Siwan Roberts.
- **Cyflawnir hyn trwy roi defnyddiau newydd, hyblyg i'r safle, yn troi o gwmpas 2 elfen allweddol:**
- Atgyweirio'r seleri a newid eu diben i ddarparu lle ar gyfer addysg a phrofiad deongliadol realiti rhithwir.
- Adeiladu gofod perfformio cadarn, parhaol gyda darpariaeth drydanol gysylltiedig mewn cynllun tirlunio ehangach, gan gynnwys ailosod y gerddi teras ffurfiol, lle gellir cynnal digwyddiadau cerddorol, theatrig a sinematig.



*Ar hyn o bryd nid yw Tŷ'r Gnoll yn amlwg fel calon hanesyddol y parc. Mae'n ardal ar gyrion y parc nad yw'n cael defnydd digonol. Nid yw'r cyhoedd yn gallu mynd i'r seleri, ac mae'r adeiladau sy'n eu gorchuddio ar hyn o bryd yn anghydnaws â'r cyd-destun.*



*Golygfa fenol o'r seleri presennol*



*Mae'r cynnig yn diffinio ac yn dehongli amlinelliad y tŷ gwreiddiol yn well, trwy dirlunio caled a meddal, ond hefyd yn darparu defnyddiau newydd dichonadwy: gan gynnwys sgriniadau sinema/perfformiadau cerdd a theatr, ochr yn ochr â darpariaeth addysg a dehongli rhyngweithiol ar gyfer y seler.*

# C3

- **Uwchraddio ac estyn y Ganolfan Ymwelwyr i ddarparu ystod ehangach o gyfleusterau i'r gymuned.**
- Gwneud y gorau o leoliad y Ganolfan Ymwelwyr bresennol fel bod golygfeydd clir dros y Pwll Pysgod o'r tu mewn, gan roi cyfle i drigolion ac ymwelwyr fwynhau tirlun hanesyddol y Gnoll.
- Cynyddu defnyddioldeb y ganolfan ymwelwyr bresennol a'r llif ymwelwyr/lle y gellir ei ddefnyddio, trwy ei hestyn a'i hailgyflunio.
- Cynyddu'r hyn sydd ar gael i ymwelwyr, i gynnwys:
- Tai bach mwy hwylus (fydd yn cynnwys Tŷ Bach Mannau Newid)
- Ailgyflunio'r caffi gyda gwell storio a chyfleusterau yn y gegin, gan gynnwys ardal fesanîn gyda golygfeydd godidog dros y llyn.
- Ardal chwarae meddal ar sawl lefel i blant gael chwarae y tu mewn
- Ystafelloedd hyblyg ar gyfer arddangosfeydd, gwella'r dehongli/arddangos ac at ddefnydd y gymuned leol i gynnal digwyddiadau amrywiol a dosbarthiadau
- Lle penodedig ar gyfer Cyfeillion y Gnoll, fel bod gan y grŵp le i hwyluso'u gwaith, ynghyd â Swyddfa i'r Parcmyn.



*Er ei bod yn weithredol, mae adeilad presennol y ganolfan ymwelwyr/caffi yn methu â chyflawni ei botensial i roi profiad fydd yn ysbrydoli ymwelwyr. Nid oes patrwm clir i'r adeilad, ac felly mae'n anodd i ymwelwyr ddeall sut mae mynd trwy'r adeilad 'y ffordd gywir'. Mae'r bensaernïaeth yn amddiffynnol, ac ni wneir y gorau o'r golygfeydd dros y llyn na'r golygfeydd i'r rhannau mewnol. Mae hyn yn lleihau'r cysylltiad â'r parcdir.*



*Golygfa fewnol o'r newidiadau arfaethedig*



*Mae'r cynnig yn creu adeilad newydd fel dehongliad modern o'r mudiad celf a chrefft, gyda goleddf serth i'r to, yn adleisio Bwthyn y Pwll ar ochr arall y llyn, er mwyn darparu cyfleusterau ychwanegol. Mae'r golygfeydd yn cael eu fframio, a cheir gwell cysylltiad â'r parcdir.*

# A9/ 10

- **Adfer Gerddi llysiau hanesyddol y Gegin a darparu cyfres o unedau llety i dwristiaid yn y parc.**

  Cyflawnir hyn trwy wneud y canlynol:
- Atgyweirio Bwthyn y Pwll ar gyfer llety gwyliau;
- Atgyweirio, ailadeiladu a newid diben adeiladau diangen presennol yr iard wasanaeth gynt i greu unedau gwyliau o amgylch cwrt canolog wedi'i dirlunio, oddi mewn i dirwedd wedi'i gyflwyno mewn modd mwy organig;
- Adfer tirwedd gardd lysiau ffurfiol y gegin yn Nhŷ'r Gnoll, gan helpu i lywio naratif yr ystâd ar gyfer ymwelwyr â'r parc;
- Gosod Cabanau Gwyliau yng Ngardd Lysiau'r Gegin (podiau pren o safon uchel: strwythurau ysgafn, sy'n gorwedd ar y ddaear i ddarparu cyfleusterau ystafell wely, ystafell fyw, cegin ac en suite). Byddai'r rhain yn cael eu trefnu i ddehongli a gwella ymhellach hen ardd lysiau'r gegin;
- Darparu lle parcio mewn man nad yw'n amharu ar gyfer y llety yn yr iard wasanaeth bresennol. Bydd hyn yn galw am uwchraddio adeiladau presennol yr iard wasanaeth a gosod y lleoedd parcio ar arwyneb gro.




*Cynllun sgematig o batrwm gerddi llysiau'r Gegin ar ôl eu hadfer a'r llety cysylltiedig i ymwelwyr*

Hiraeth.
Hiraeth Architecture Ltd.
Planning Solutions Consulting
UK Government
Llywodraeth y DU
FFYNIANT BRO

# Parc y Gnoll – Cyfleusterau i Ymwelwyr – Prif Agweddau